


# Cynllun Ffermio Cynaliadwy Opsiynol:

## Grant Creu Coetir

# Canllaw Technegol

## CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY OPSIYNOL: GRANT CREU COETIR

## MANYLEBAU TECHNEGOL AR GYFER GWAITH CYFALAF

Mae'r nodiadau hyn yn esbonio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy Opsiynol: Grant Creu Coetir a fydd yn cael ei alw'n 'y Grant' yn y canllaw hwn. Mae'r Grant) yn darparu grantiau ar gyfer plannu coed ynghyd â darparu taliadau cynnal a chadw a phremiwm am 12 mlynedd. Yn ogystal mae grantiau ar gyfer ffensys da byw, ffensys ceirw a gatiau ar gael hefyd. Bydd gofyn bod gennych Blan Creu Coetir fydd wedi'i sgrifennu gan Gynllunydd Coetir Cofrestredig a'i ddilysu gan dîm Rhaglen Coetir CNC cyn y cewch wneud cais am y Grant.

Mae'n rhaid cwblhau'r Gwaith Cyfalaf a nodir yng nghontract y Grant yn unol â'r nifer, y lleoliad a'r amseriad a nodir yn y Contract. Mae'r Manylebau Technegol canlynol yn cynnwys manylion sut y dylid cwblhau pob darn o Waith Cyfalaf.

Os gwelir bod unrhyw waith rydych yn ei hawlio wedi'i wneud at safon wahanol, hebganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru, gallai'r prosiect gael ei ystyried yn anghymwys. Bydd hynny'n golygu y caiff hawliadau eu gwrthod (neu y gofynnir ichidalu unrhyw arian a dalwyd yn ôl) ac y cewch eich cosbi yn unol â rheolau'r cynllun,oni bai ein bod yn asesu bod y gwaith wedi'i wneud at safon gyfatebol.

Dylech nodi y bydd efallai angen caniatâd ychwanegol i'r hyn a amlinellir yn y Manylebau Technegol hyn ar beth o'r gwaith y mae gofyn i chi ei gwblhau fel rhan o'ch Contract Grant, a hynny cyn cychwyn ar y gwaith hwnnw.
s

© Hawlfraint y Goron 2026 ISBN digidol: 978-1-80853-049-4

## CYNNWYS


**1. CANLLAW PLANNU CYFFREDINOL ..... 5**
Cynllunio ..... 5
Amseriad ..... 5
Paratoi'r Tir ..... 5
Rhywogaethau ..... 5
Prynu coed a llwyni ..... 5
Stoc Meithrinfa ..... 5
Maint y Goeden ..... 6
Trin y Coed ..... 6
Plannu coed ..... 6
Diogelu coed ..... 6
Mannau Agored ..... 7
Plannu wrth afonydd, pyllau, nentydd ac ati ..... 7
Diogelu coed rhag da byw ..... 7
Gofalu am goed a llwyni ..... 7
Coed yn lle coed sy'n marw ..... 7
Llewys coed ..... 7
Hawlio'r grant ..... 8

**2. MANYLEBAU A GOFYNION PLANNU CATEGORÏAU O GOETIR ..... 9**
P002 - Coetir Brodorol - Bioamrywiaeth (1600) ..... 9
P003 - Coetir Brodorol - Carbon ..... 10
P004 - Plannu Coetir Cymysg Gwell ..... 11
P005 - Coetir Brodorol - Bioamrywiaeth (1100) ..... 12
P006 - Amaeth-goedwigaeth ar Dir Uchel - Coed Gwasgaredig ..... 13
P007 - Amaeth-Goedwigaeth ar Dir Isel - Coed gwasgaredig ..... 15
P008 - Cyfuniad o Ffrwythau a Chnau ..... 18

**3. GWAITH CYFALAF FFENSIO CYSYLLTIEDIG ..... 19**
P595 - Ffens Postyn a Weiren a Netin ar gyfer Stoc ..... 19
P518 - Ffens Ceirw ..... 21

**4. GWAITH CYFALAF GATIAU CYSYLLTIEDIG ..... 23**
P590 - Gât Safonol (Metel) ..... 23
P599 - Gât Safonol (pren caled) ..... 23
P600 - Gât Safonol (Pren Meddal) ..... 24
P516 - Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren ..... 24
P517 - Cilbyst a Gât Mochyn o Bren ..... 27

**5. GWAITH CYFALAF DWR CYSYLLTIEDIG ..... 29**

P563 - Pibelli Cyflenwi Dŵr....29
P573 - Gât Ddŵr....30
P574 - Cafnau Dŵr....32

## 1. CANLLAW PLANNU CYFFREDINOL

Mae’r canllawiau cyffredinol canlynol yn berthnasol i bob Categori o Goetir yn y Grant. Ond sylwer ar y gofynion arbennig ynghylch **P006 - Amaeth-goedwigaeth ar Dir Uchel - Coed Gwasgaredig** a **P007 - Amaeth-goedwigaeth ar Dir Isel - Coed Gwasgaredig**

### Cynllunio

Peidiwch â dechrau plannu’r coed nes bod gennych gontract y Grant. Rhaid ichi ddilyn y Plan Creu Coetir y cytunwyd arno. Wrth gynllunio’r gwaith plannu coed, bydd angen i chi ystyried bod gofyn prynu’r coed a’r llwyni, a oes pobl ar gael i’ch helpu i’w plannu, natur y safle, y tywydd a faint o amser y bydd y gwaith plannu’n debygol o’i gymryd. Bydd contract y Grant yn rhoi amserlen i chi gwblhau’r gwaith a bydd angen i chi nodi erbyn pryd y bydd angen i chi hawlio.

### Amseriad

Yn draddodiadol, mae’r tymor plannu’n para o 1 Hydref tan 30 Mawrth ond oherwydd y newid yn yr hinsawdd, mae’r tymor wedi tyfu. Mae coed fel arfer yn cael eu plannu ym misoedd oera’r flwyddyn. ***Ond peidiwch â’u plannu pan fydd y pridd wedi rhewi***.

### Paratoi’r Tir

Rydym yn argymell eich bod yn torri neu’n pori’r borfa ar y tir cyn dechrau plannu. Bydd hynny’n hwyluso’r gwaith plannu. Os oes haen drwchus o ddeunydd marw, mae’n anoddach gwasgu’r pridd o gwmpas y coesyn.

Bydd technegau paratoi’r tir fel codi’r dywarchen i ddatgelu’r pridd, creithio a thwmpathu cyn plannu yn hwb anferth i helpu’r coed i gydio. Mae’r opsiynau hyn yn golygu bod llai o garbon yn cael ei golli. O’i wneud yn iawn, trwy baratoi’r tir, byddwch yn rheoli llystyfiant ac yn cyflymu’r gwaith plannu trwy greu safle fydd wedi’i baratoi’n dda.

Bydd opsiwn i chi hawlio hyd at 15% o’r Grant ar ôl i chi baratoi’r tir. Gallai’r RPW ddewis archwilio’ch safle cyn talu.

### Rhywogaethau

Bydd pa rywogaethau coed y byddwch yn eu plannu yn dibynnu ar y categorïau y byddwch wedi’u dewis yn y Plan Creu Coetir. Peidiwch â chynnwys unrhyw goed ynn na llarwydd yn eich cymysgedd o goed *oherwydd Clefyd y Coed Ynn (Chalara fraxinea) a Phytophthora Ramorum.*

### Prynu coed a llwyni

Lle medrwch, defnyddiwch feithrinfeydd sy’n gwerthu coed o’r DU gan fod hynny’n lleihau’r risg o fewnforio plâu a chlefydau coed. Mae meithrinfeydd coed sydd â’r dystysgrif Plant Healthy yn gwerthu coed a llwyni sydd wedi’u tyfu yn y DU. Fel arall, gallwch gasglu’r hadau’ch hunan a’u tyfu’n goed a llwyni cyn belled â’ch bod yn cadw at y Plan Creu Coetir.

### Stoc Meithrinfa

**Gwreiddiau Moel** – codir y coed o’r pridd â gwreiddiau moel a’u pacio’n fwndeli. Gwreiddgyff moel sy’n cael eu defnyddio amlaf ar gyfer plannu coed newydd ond mae angen eu storio a’u trin yn ofalus rhag i’r gwreiddiau sychu.

**Mewn Celloedd (Plygiau)** – tyfir y rhain mewn padelli plastig sy'n creu plygiau cul owreiddiau mân a phridd. Mae tyfu coed mewn cell yn ymestyn y tymor tyfu bob pen gan fod y gwreiddiau'n gallu tyfu yn y plwg pridd ac mae'r plwg yn amddiffyn y planhigyn rhag difrod wrth ei blannu.

**Mewn Pot** - yn cael eu tyfu mewn potiau unigol. Llwyni fel celyn sy fel arfer yn cael eu tyfu mewn potiau.

**Maint y Goeden**

Planhigion llai sy orau fel arfer ar gyfer eu plannu, hynny oherwydd y gymhareb gwreiddyn-a-choesyn. Mae'n well prynu planhigyn â llawer o wreiddiau a dim ond ychydig o ganghennau a dail. Bydd y coed hynny'n fwy tebygol o gydio'n gyflym ac yn llwyddiannus. Ac unwaith y byddan nhw wedi sefydlu, bydd eu gwreiddiau'n gryfach a byddan nhw'n tyfu'n gynt na choed sydd wedi'u tyfu o blanhigion mwy.

Dylech fel arfer anelu at brynu coed a llwyni rhwng 20 a 60cm. Peidiwch â phrynu coed a llwyni mwy a drutach e.e. coed 120-150cm a llwyni 60-90cm.

**Trin y Coed**

Mae coed ifanc yn fregus ac yn hawdd eu niweidio o'u trin yn ddi-ofal rhwng y feithrinfa a'r safle plannu. Trefnwch os medrwch bod y gwerthwr yn mynd â'r coed i'r safle plannu neu cyn agosed â phosibl iddo. Bydd hynny'n osgoi'r gwaith blinderus a gwastraffus o ran amser o drin y coed ddwywaith ac yn lleihau'n fawr y perygl o'u difrodi.

Ceisiwch fod yno pan fydd y coed yn cyrraedd i sicrhau eu bod mewn cyflwr da. ***Cadwch y gwreiddiau moel dan orchudd trwy'r amser cyn eu plannu rhag i chi eu niweidio neu rhag iddynt sychu.*** Er na fydd oerfel yn debygol o wneud drwg iddynt, gall haul twym neu unrhyw beth all eu sychu, fel gwynt o'r dwyrain, eu niweidio'n gyflym iawn neu hyd yn oed eu lladd. Os na allwch eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddynt gyrraedd a storiwch y planhigion ynddi gyda'r gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys cwningod ac ysgyfarnogod.

**Plannu coed**

Gofalwch eich bod yn dilyn y Plan Creu Coetir. Gallwch naill ai gyflogi contractwr i wneud y gwaith plannu neu blannu'r coed eich hun. Gallech hefyd ofyn i'r Cynllunydd Coetir a sgrifennodd y plan am gyngor ar sut i blannu coed.

**Diogelu coed**

Ceir cwningod, ysgyfarnogod, ceirw neu lygod y gwair ar y rhan fwyaf o safleoedd ac fe'ch cynghorir i roi llewys coed ar goed llydanddail i atal difrod. Gall coed conwydd dyfu heb amddiffyniad ychwanegol. Gall cysgod coed helpu coed i dyfu yn y blynyddoedd cyntaf, ei gwneud yn haws eu cynnal a'u cadw a sicrhau nad yw mamaliaid neu redyn yn gwneud niwed i'r coed. Byddwn yn cynghori rheolwyr tir i ddefnyddio rhai sydd heb eu gwneud o blastig os byddai hynny'n addas i'r safle. Gall eich Cynghorydd Coetir ddweud yn y Plan Creu Coetir ba fath o amddiffyniad sydd ei angen ar y coed.

**Mannau Agored**

Gall hyd at 15% o'r tir rydych yn plannu arno fod yn dir agored gwasgaredig na ellir plannu arno a gall lleiniau o dir agored na ellir plannu arnynt fod hyd at 0.5ha o faint. Bydd yn rhaid ichi dynnu unrhyw leiniau o dir agored sy'n fwy na 0.5ha o'r cynllun plannu. Bydd yn rhaid i chi newid y bylchau rhwng y coed mewn rhannau o'r safle i adlewyrchu'r tir na fyddwch wedi gallu plannu arno i wneud yn siŵr eich bod yn plannu'r nifer o goed sydd wedi'i nodi yn eich contract.

**Plannu wrth afonydd, pyllau, nentydd ac ati**

Y nod yw cynefin ar lan y dŵr sydd o dan gymysgedd o gysgod trwm a chysgod ysgafn – tua 50% ohono ar gyfartaledd o dan ganopi, ond ystyriwch amgylchiadau lleol ac anghenion y rhywogaethau blaenoriaeth. Ni ddylai mwy na 10% o'r coed ar lan afon fod yn goed gwern, yn unol â Safonau Coedwigaeth y DU

**Diogelu coed rhag da byw**

Rhaid amddiffyn coed newydd o dan y Grant rhag da byw (gan gynnwys ceffylau, merlod a chamelidau) a cheirw trwy godi ffensys terfyn addas, am o leiaf 12 mlynedd ar ôl cyflwyno'r hawliad am y taliad cynnal a chadw cyntaf.

**Gwaith Cynnal a Chadw**

**Gofalu am goed a llwyni**

Mae'n hynod bwysig rheoli'r chwyn o gwmpas coed am eu bod yn cystadlu am ddŵr a maethynnau. Bydd angen i chi dorri'r llystyfiant o gwmpas y coed a'r llwyni am o leiaf 3 blynedd nes bod y coed yn tyfu'n uwch na'r llystyfiant.  Gall llystyfiant tal fel rhedyn a mieri ddifrodi coed ac fel arfer, bydd angen eu torri â llaw neu beiriant. Mae torri neu strimio porfa'n ei wneud i dyfu'n ôl yn gryfach.

Sbot-chwynnu â chwynladdwr addas yw'r ffordd gemegol fwyaf effeithiol o'u rheoli. Dim ond cemegion sydd wedi'u trwyddedu y cewch eu defnyddio a dim ond pobl â thrwydded sy'n cael eu gwasgaru. Gallwch ddefnyddio matiau mwlts o blastig, cardfwrdd neu ddefnydd yn lle cemegau.
Y gorau yn y byd yw ansawdd y gwaith plannu, diogelu a gofalu am y coed, y mwyaf tebygol y bydd y coed o gydio'n gyflym ac yn llwyddiannus.

**Coed yn lle coed sy'n marw**

Mae plannu coed newydd yn lle'r coed sy'n marw yn ffordd o sicrhau bod yr holl goed yn goroesi erbyn diwedd contract y Grant (13 blynedd).  Dylid asesu'r safle plannu bob blwyddyn tua diwedd yr haf. Rhaid plannu coed yn lle unrhyw goed marw yn yr hydref neu'r gwanwyn dilynol. Chwiliwch am batrwm i'r colledion o ran y math o dir neu rywogaeth. Os ydy'r colledion yn fwy na 10-15%, ac os nad oes achos amlwg, holwch y sawl sy'n gwerthu'r planhigion i chi neu gofynnwch am gyngor proffesiynol.

**Llewys coed**

Mae angen edrych ar lewys yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn sâff. Mae llystyfiant yn gallu tyfu i fyny'r tiwbiau a'r llewys. Rhaid gofalu bod y tiwbiau'n cyffwrdd â'r llawr rhag i gwningod a llygod allu cael at goesau'r coed. Er eu bod fel arfer yn fioddiraddiadwy, gallent gael effaith ddrwg ar dyfiant a sefydlogrwydd y coed pe baech yn eu gadael. Felly dylech eu tynnu cyn gynted ag nad oes eu hangen.

**Hawlio’r grant**

Hawliwch y grantiau am blannu coed a chodi ffensys a gatiau ar ôl i’r gwaith gael ei wneud trwy’ch cyfrif RPW Ar-lein.

Bydd angen i chi hawlio’r taliad cynnal a chadw a’r premiwm blynyddol ar yr Ffurflen Gais Sengl (SAF) trwy’ch cyfrif RPW Ar-lein yn ystod y mis Mai flwyddyn ar ôl i chi orffen plannu’r coed.

## 2. MANYLEBAU A GOFYNION PLANNU CATEGORÏAU O GOETIR

**Bydd y manylebau technegol ar gyfer Creu Coetir – Gwaith Cyfalaf yn cael eu cynnwys yn eich contract ar gyfer y Grant.**

### P002 - Coetir Brodorol - Bioamrywiaeth (1600)

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan waith cyfalaf Categori Coetir ‘Coetir Brodorol – Bioamrywiaeth’.

### Gofynion Plannu

Mae’r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu rhywogaethau coed brodorol.

Gellir plannu’r coed mewn clystyrau gyda bylchau amrywiol eu maint rhwng y coed e.e. plannwch grwpiau rhwng 5 ac 20 o goed o’r un rhywogaeth.

### Manyleb

- Rhywogaethau brodorol – dylai’r cymysgedd fod yn frodorol i’r safle a chydymffurfio â mathau’r Cynllun Gweithredu ar Gynefinoedd (er enghraifft deri’r ucheldir, coetir collddail cymysg yr iseldir), ond gallai’r amodau lleol ofyn am newid hyn i ryw raddau.
- Stoc plannu lleol addas
- Caiff hyd at 30% fod yn llwyni coediog
- Gwasgaru rhywogaethau’n glystyrau, gyda bylchau amrywiol rhyngddynt
- Dwysedd stocio 1,600/ha
- Dim da byw (gan gynnwys ceffylau, merlod a chamelidau)

Mae plannu o dan yr opsiwn hwn yn gofyn am 1,600 coed/ha sy’n gyfystyr â bwlch o 2.5m rhwng pob coeden er y gellir eu plannu’n glystyrau. Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o’r safle oherwydd nodweddion fel cnycau creigiog neu dir agored na ellir eu plannu.

Rhaid plannu o leiaf 1600 o goed yr hectar gyda’r cyfan wedi cydio am 12 mlynedd ar ôl blwyddyn plannu’r coed.

**P003 - Coetir Brodorol - Carbon**

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan opsiwn plannu gwaith cyfalaf ‘Coetir Brodorol – Carbon’.

**Gofynion Plannu**

Mae’r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu coed brodorol.

Gellir plannu’r coed yn glystyrau, gyda bylchau amrywiol rhyngddyn nhw e.e. dylech blannu grwpiau o goed o 5 – 20 o goed o’r un rhywogaeth

**Manyleb**

- Cymysgedd o rywogaethau brodorol
- Caiff hyd at 30% fod yn llwyni coediog
- Dwysedd stocio 2,500/ha
- Dim da byw (gan gynnwys ceffylau, merlod a chamelidau)

Rhaid plannu o leiaf 2500 o goed yr hectar, sy’n gyfystyr â bwlch o 2.0m rhwng pob coeden. Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o’r safle oherwydd nodweddion fel cnycau (brigiadau) creigiog neu dir agored na ellir eu plannu.

Rhaid plannu o leiaf 2500 o goed yr hectar gyda’r cyfan wedi cydio am 12 mlynedd ar ôl blwyddyn plannu’r coed.

**P004 - Plannu Coetir Cymysg Gwell**

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraeddichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan opsiwn plannu gwaith cyfalaf ‘Coetir Brodorol Gwell’.

**Gofynion Plannu**

Mae’r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu coed brodorol.

**Manyleb**

- leiaf 5 prif rywogaeth (o leiaf 10% yr un)
- leiaf 25% yn goed llydanddail gan gynnwys yr elfen llwyni coediog neu 30%os yw’r ardal blannu yn llai na’r terfyn uchaf ac yn fwy na 30 hectar
- Caiff hyd at 10% fod yn llwyni coediog
- Dim mwy na 50% yn un rhywogaeth
- Dwysedd stocio 2,500/ha
- Dim da byw (gan gynnwys ceffylau, merlod a chamelidau)

O dan yr opsiwn hwn, rhaid plannu o leiaf 2,500 o goed yr hectar, sy’n gyfystyr â bwlch o 2.0m rhwng pob coeden. Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o’r safle oherwydd nodweddion fel cnycau (brigiadau) creigiog neu dir agored na ellir eu plannu.

Rhaid plannu o leiaf 2,500 o goed yr hectar a rhaid iddynt fyw neu gau’r canopi am12 mlynedd ar ôl blwyddyn plannu’r coed.

**P005 - Coetir Brodorol - Bioamrywiaeth (1100)**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraeddichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan opsiwn plannu gwaith cyfalaf 'Coetir Brodorol – Bioamrywiaeth'.

**Gofynion Plannu**

Mae'r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu coed brodorol.

Gellir plannu'r coed yn glystyrau, gyda bylchau amrywiol rhyngddyn nhw e.e. dylech blannu grwpiau o goed o 5 – 20 o goed o'r un rhywogaeth

**Manyleb**

- Rhywogaethau brodorol – dylai'r cymysgedd fod yn frodorol i'r safle a chydymffurfio â mathau'r Cynllun Gweithredu ar Gynefinoedd (er enghraifft deri'r ucheldir, coetir collddail cymysg yr iseldir), ond gallai'r amodau lleol ofynam newid hyn i ryw raddau.
- Stoc plannu lleol addas
- Caiff hyd at 30% fod yn llwyni coediog
- Gwasgaru rhywogaethau'n glystyrau, gyda bylchau amrywiol rhyngddynt
- Dwysedd stocio 1,100/ha
- Dim da byw (gan gynnwys ceffylau, merlod a chamelidau)

Mae plannu o dan yr opsiwn hwn yn gofyn am 1,100 coed/ha sy'n gyfystyr â bwlch o 2.5m rhwng pob coeden. Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o'r safle oherwydd nodweddion fel tir agored na ellir plannu arno neu glannau afonydd. Rhaid plannu o leiaf 1,100 o goed yr hectar a rhaid iddynt fyw neugau'r canopi am 12 mlynedd ar ôl blwyddyn plannu'r coed.

**P006 - Amaeth-goedwigaeth ar Dir Uchel - Coed Gwasgaredig**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon waith ofynnol er mwyn derbyn taliadau ar gyfer 'Amaeth-goedwigaeth ar Dir Uchel – Coed Gwasgaredig'. Os oes ffyrdd neu ddulliau traddodiadol lleol sy'n wahanol i'r safon hon, gellir eu defnyddio. Rhaid i unrhyw wahaniaeth sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

**Manyleb**

- 80 o goed yr hectar
- Giard o amgylch coed unigol
- Pellter o 8m o leiaf rhwng pob coeden
- Ddim yn gymwys ar gyfer Taliad Premiwm Creu Coetir
- Ar gael ar gyfer parseli cau uwchben terfyn uchaf y tir wedi'i amgáu
- Arwynebedd o 0.5ha o leiaf
- Plannu â llaw
- Creithio wedi'i gyfyngu i offer llaw
- Gellid defnyddio peiriannau i gloddio tyllau ac i helpu i osod pyst ffensys

Wrth blannu o dan yr opsiwn hwn mae angen 80 coeden fesul hectar, gyda phellter o 8m o leiaf rhwng y coed i sicrhau bod y coed yn cael eu dosbarthu'n gyfartal. Efallai y bydd angen ichi diogelu'r coed rhag pori a difrod gan dda byw. Rhaid plannu o leiaf 80 o goed fesul hectar a rhaid iddynt fyw am 12 mlynedd ar ôl y flwyddyn y plannwyd y coed.

**Plannu Coed**

Mae'r rhywogaethau sydd i'w plannu wedi'u rhestru yn yr Atodiad A.

**Diogelu Coed**

Mae dewis defnyddio gardiau a dulliau diogelu coed yn ôl disgresiwn yr ymgeisydd, ond rhaid sicrhau bod 100% o'r coed yn goroesi, gan ganiatáu tair blynedd ar gyfer plannu coed yn lle rhoi marw.

Bydd lefel y diogelu sy'n ofynnol yn amrywio yn dibynnu ar y cyd-destun, ond dylid ystyried y canlynol:

- **Uchder y Giard**. Bydd angen i'r giard sicrhau bod blaen y coed ifanc sy'n tyfu'n cael ei amddiffyn rhag anifeiliaid sy'n pori.
- **Lled y Giard**. Bydd angen digon o bellter rhwng coesyn y goeden a'r giard i atal da byw rhag ymestyn dros y giard a phori pan fydd y goeden newydd ddechrau tyfu.
- **Cryfder** Mae angen i'r giard fod yn ddigon cryf i wrthsefyll da byw sy'n pwyso yn ei erbyn, gan sicrhau bod yr holl goeden yn cael ei diogelu rhag anifeiliaid sy'n pwyso yn ei herbyn,

a hynny o bob cyfeiriad. Bydd cynyddu nifer y cynalyddion yn cynyddu cadernid y strwythur.

- **Amseru** Gall da byw fod yn chwilfrydig. Bydd gosod y giardiau coed dros dro cyn plannu'r coed yn rhoi cyfle i dda byw fforio heb beri difrod i'r coed. Mae hefyd yn rhoi cyfle ichi weld pa olwg a fydd ar y coed cyn ichi eu plannu.

Ystyriaethau pellach

- Gellir dylunio giardiau i fod wedi'u tapro (cul ar y gwaelod gyda diamedr cynyddol uwch i fyny) i leihau colli arwynebedd pori.
- Gall cyfuniad o giardiau helpu i amddiffyn rhag bywyd gwyllt yn ogystal â da byw.

Dyma enghreifftiau o ddulliau diogelu addas:

- Giard coed dur, amddiffynnydd coed dur - Cactus Tree Guards, Cumbria, UK
- Giardiau wedi'u weldio wedi'u ffurfio ymlaen llaw, 1.8m x 450mm, weiar 2.5mm (farmforestry.co.uk)
- Giard Coed – pen llydan – 1800mm x 600mm | Haearn gyr du (ultimate-one.co.uk)
- Giardiau rhwyll wedi'u weldio wedi'u ffurfio ymlaen llaw 300mm (farmforestry.co.uk)
- Giard Coed 'Titan' – Du | Black Country Metalworks

**P007 - Amaeth-Goedwigaeth ar Dir Isel - Coed gwasgaredig**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon waith ofynnol er mwyn derbyn taliadau ar gyfer ‘Amaeth-goedwigaeth ar Dir Isel – Coed Gwasgaredig’. Os bydd ffyrdd neu ddulliau traddodiadol lleol sy'n wahanol i'r safon hon, gellir eu defnyddio. Rhaid i unrhyw wahaniaeth sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

**Manyleb**

- 50 o goed yr hectar
- Giardiau o amgylch coed unigol
- Pellter o 15m o leiaf rhwng pob coeden.
- Ddim yn gymwys ar gyfer Taliad Premiwm Creu Coetir
- Ar gael ar gyfer parseli cae islaw terfyn uchaf y tir wedi'i amgáu
- Arwynebedd o 0.5ha o leiaf
- Plannu â llaw
- Creithio wedi'i gyfyngu i offer llaw
- Gellid defnyddio peiriannau i gloddio tyllau ac i helpu i osod pyst ffensys

Wrth blannu o dan yr opsiwn hwn mae angen 50 coeden fesul hectar, gyda phellter o 15m o leiaf rhwng y coed i sicrhau bod y coed yn cael eu dosbarthu'n gyfartal. Efallai y bydd angen ichi ddiogelu'r coed rhag pori a difrod gan dda byw. Rhaid plannu o leiaf 50 o goed fesul hectar a rhaid iddynt fyw am 12 mlynedd ar ôl y flwyddyn y plannwyd y coed.

**Plannu Coed**

Mae'r rhywogaethau sydd i'w plannu wedi'u rhestru yn yr Atodiad A.

**Amddiffyn Coed**

Mae dewis defnyddio giardiau a dulliau diogelu coed yn ôl disgresiwn yr ymgeisydd, ond rhaid sicrhau bod 100% o'r coed yn goroesi, gan ganiatáu tair blynedd ar gyfer plannu coed yn lle rhai marw.

Bydd lefel y diogelu sy'n ofynnol yn amrywio yn dibynnu ar y cyd-destun, ond dylid ystyried y canlynol:

- **Uchder y Giard**. Bydd angen i'r giard sicrhau bod blaen y coed ifanc sy'n tyfu'n cael ei amddiffyn rhag pori anifeiliaid.
- **Lled y Giard**. Bydd angen digon o bellter rhwng coesyn y goeden a'r giard i atal da byw rhag ymestyn dros y giard a phori pan fydd y goeden newydd ddechrau tyfu.
- **Cryfder** Mae angen i'r giard fod yn ddigon cryf i wrthsefyll da byw sy'n pwyso yn ei erbyn, gan sicrhau bod yr holl goeden yn cael ei diogelu rhag anifeiliaid sy'n pwyso yn ei herbyn, a hynny o bob cyfeiriad. Bydd cynyddu nifer y cynalyddion yn cynyddu cadernid y strwythur.

- **Amseru** Gall da byw fod yn chwilfrydig. Bydd gosod y giardiau coed dros dro cyn plannu'r coed yn rhoi cyfle i dda byw fforio heb beri difrod i'r coed. Mae hefyd yn rhoi cyfle ichi weld pa olwg a fydd ar y coed cyn ichi eu plannu.

Ystyriaethau pellach

- Gellir dylunio giardiau i fod wedi'u tapro (cul ar y gwaelod gyda diamedr cynyddol uwch i fyny) i leihau colli arwynebedd pori.
- Gall cyfuniad o giardiau helpu i amddiffyn rhag bywyd gwyllt yn ogystal â da byw.

Dyma enghreifftiau o ddulliau diogelu addas:

- Giard coed dur, amddiffynnydd coed dur - Cactus Tree Guards, Cumbria, UK
- Giardiau rhwyll wedi'u weldio wedi'u ffurfio ymlaen llaw, 1.8m x 450mm, weiar 2.5mm (farmforestry.co.uk)
- Giard Coed – Pen Llydan, 1800mm x 600mm | Haearn gyr du (ultimate-one.co.uk)
- Giardiau rhwyll wedi'u weldio wedi'u ffurfio ymlaen llaw, diamedr 300mm (farmforestry.co.uk)
- Giard Coed 'Titan' – Du | Black Country Metalworks

**Rhestr o Rywogaethau Coed sy'n gymwys ar gyfer opsiynau Gwaith Cyfalaf:**

**P006 - Amaeth-goedwigaeth ar Dir Uchel - Coed Gwasgaredig**
**P007 - Amaeth-goedwigaeth ar Dir Isel - Coed Gwasgaredig**

**Coed**

Gwernen Gyffredin
Afalau Surion
Bedwen Arian
Bedwen Gyffredin
Ffawydden
Ceiriosen yr Adar
Ceiriosen Ddu
Llwyfen Lydanddail
Llwyfen Gyffredin
Draenen Wen
Collen
Celynnen
Pisgwydden Deilen Fach
Pisgwydden Deilen Fawr
Masarnen Fach
Derwen Mes Coesynnog
Derwen Mes Digoes
Pinwydden yr Alban
Aethnen
Aethnen Ddu
Criafolen
Cerddinen Wen
Cerddinen Morgannwg
Cerddinen Wyllt
Helygen Bêr
Helygen Wen
Helegyn Dribrigerog
Ywen
Coeden Ellyg Gwyllt
Coeden Ellyg Plymouth
Masarnen
Castanwydden Bêr
Derwen Fythwyrdd
Castanwydden
Cerddinen y Graig
Piswydden
Helygen Ddeilgron
Helygen Lwyd
Helygen Gochlas
Helygen Wiail
Helygen  Glustiog
Draenen Ddu
Eirin Myrobalan
Coeden Cnau Ffrengig

**P008 - Cyfuniad o Ffrwythau a Chnau**

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan waith cyfalaf Categori Coetir 'Ffrwythau a Chnau'

**Gofynion Plannu**

Mae’r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu coed brodorol.

Gellir plannu’r coed yn glystyrau, gyda bylchau amrywiol rhyngddynt e.e. dylech blannu grwpiau o goed o 5 – 20 o goed o’r un rhywogaeth

**Manyleb**

- Mae rhwng 10% a 30% o goed ffrwythau masnachol yn stoc plannu
- Caniatáu uchafswm o 15% o lwyni prennaidd
- Creu clystyrau o rywogaethau gyda bylchau amrywiol
- Gall dwysedd y plannu amrywio ond rhaid i'r pellter fod rhwng o leiaf 1m ac uchafswm o 10m.
- Dwysedd stocio 800/hectar
- Dim da byw (gan gynnwys ceffylau, merlod a chamelidau)

Mae plannu o dan yr opsiwn hwn yn gofyn am 800 coed/ha sy’n gyfystyr â bwlch o 3.5m rhwng pob coeden er y gellir eu plannu’n glystyrau.  Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o’r safle oherwydd nodweddion fel cnycau (brigiadau) creigiog neu dir agored na ellir eu plannu.

Rhaid plannu o leiaf 800 o goed yr hectar a rhaid i 100% fyw am 12 mlynedd ar ôl y flwyddyn y plannwyd y coed.

## 3. GWAITH CYFALAF FFENSIO CYSYLLTIEDIG

### P595 - Ffens Postyn a Weiren a Netin ar gyfer Stoc

Dyma'r safonau y bydd gofyn i'r gwaith eu cyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Weiren gyda Netin Stoc'.

Rhaid cadw at y canlynol:


- Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd syddei angen arnoch.
- Defnyddiwch naill ai bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan bwysau.
- Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod ynnewydd.
- Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd.Rhaid gosod y pyst tynnu'n ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi. Rhaid rhoi pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r ffens yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad.
- Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a phan fyddy ffens yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu cynnal rhag ymwthio allan. Ni ddylai pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi'i llifio) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn gwneud y tro cyn belled â'u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o bwynt canol yr ochr sydd wedi'i llifio i bwynt canol yr ochr gron. Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai.
- Rhaid cysylltu'r netin wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.
- Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst. Niddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr. Lle bydd gwartheg neu ddefaidyn rhoi llawer o bwysau ar y ffens, dylech roi ail linyn o weiren uwch ben y netin yn ogystal â weiren ychwanegol o dan y netin. Ar ffens sy'n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i'r llwybr.
- Gofalwch fod y ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102,fel y'u diwygiwyd.
- Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'udefnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

### Gofynion a chyngor ychwanegol at y manylebau uchod:

- Yr arfer gorau yw gosod y pyst o leiaf 1m o dan ddaear i'w sefydlogi.
- Rhaid cynnal y pwyslathau croesgornel ar naill ai blât sylfaen neu gan bostyncanol mewn lle addas i'w rhwystro rhag ymwthio allan.

- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd.

Diagram o Bostyn a Weiren â Netin Stoc



**P518 - Ffens Ceirw**

Dyma'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Ceirw'.

Rhaid i bren y ffens fod naill ai'n bren caled o goetir yng Nghymru neu'n bren meddal wedi'i drin dan bwysau. Rhaid i'r holl bren bara o leiaf 10 mlynedd.

Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin. Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd. Bydd y taliad safonol yn cynnwys cyfran ar gyfer datgymalu, dymchwel a gwaredu'r ffensys sydd yno eisoes. Gofalwch fod yr holl ddeunydd a'r safonau adeiladu newydd yn cydymffurfio â'r manylebau isod yn ogystal ag â Safonau Prydeinig 1722 a 4102.

**Deunydd ac Adeiladu**


| | | |
|---|---|---|
| **Pyst tynnu** | 3m x 15cm diamedr lleiaf y brig | 10tr x 6" |
| **Pwyslathau (strytiau)** | 2.75m x 10-13cm diamedr brig pren crwn | 9tr x 4-5" |
| **Pyst canol** | 2.75m x 8-10cm diamedr brig pren crwn | 9tr x 3-4" |
| **Netin** | Naill ai netin hydwyth iawn<br>Neu netin ysgafn hydwyth iawn | HT/13/190/15<br>LHT/13/190/15 |
| **Weiren dop** | Weiren blaen hydwyth iawn 1 x 12 ½ g | |
| **Weiren linell** | Weiren blaen hydwyth iawn 3 x 12 ½ g | |
| **Staplau** | 4cm (1 ½ ") 8g | |
| **Uchder gorffenedig** | 1.9m – 2m (6tr4" – 6tr 6") | |

**Adeiladwaith**

Rhaid gosod pyst tynnu bob tro y mae'r ffens yn newid cyfeiriad (llorweddol neu fertigol) ac o leiaf bob 200m (tua 600tr) ar ddarn syth. Rhaid palu twll o 90cm (3tr) ar eu cyfer neu eu gyrru i'r dyfnder hwnnw. Rhaid torri rhicyn yn y pwyslathau tynnu a'u hoelio wrth y pyst tynnu, a'u sefydlogi â phlât gwthio rheilen wedi'i llifio 50cm x 38cm x 76cm (1tr 9" x 1½" x 3"). Rhaid gosod y pyst canol o leiaf bob 5m (16tr 6").

Rhaid tynnu'r netin a'i osod yn briodol fel na fydd bwlch o fwy na 5cm (2") rhwng gwaelod y netin a'r ddaear. Gosodwch un weiren dop 10cm (4") uwchben top y netin. Gosodwch y weiars llinell fel bod y llinyn isaf yn rhedeg ar hyd gwaelod y netin; bod y llinyn canol yn rhedeg 1m (3tr 4")

uwchlaw'r ddaear a'r llinyn top yn rhedeg ar hyd top y netin. Rhaid cysylltu'r weiars yn sownd wrth y netin â staplen gau neu roden gysylltu.



## 4. GWAITH CYFALAF GATIAU CYSYLLTIEDIG

### P590 - Gât Safonol (Metel)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraeddichi allu cael taliad.

### Gofynion

- Gât cae, saith asgell 12tr newydd safonol, wedi'i gwneud o ddur wedi'ialfaneiddio.
- Dylai'r rheiliau uchaf ac isaf fod o leiaf 41mm. Dylai diamedr tiwbiau a'r rheiliau canol fod o leiaf 32mm. Dylai'r pyst cau neu hongian fod yn diwbiau o ddur wedi'ialfaneiddio â diamedr o 88mm neu o bren meddal wedi'i drin mewn croes doriad o leiaf o 175mm x175mm.

### P599 - Gât Safonol (pren caled)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraeddichi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Safonol– pren caled'. Os ydych am newid y safon,rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

### Rhaid cadw at y canlynol:

- Gosodwch gatiau caeau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Osydy'r bwlch yn fwy 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.
- Defnyddiwch gatiau caeau sydd wedi'u gwneud o bren caled, yn unol â'rdimensiynau yn y diagram isod.
- Defnyddiwch gatiau caeau o bren sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad yn y diagramisod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y'i diwygiwyd.
- Gosodwch y gât bren i hongian ar bostyn o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob postyn hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst caugroestoriad o 175mm x 175mm.
- Gosodwch bob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen.Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

### Peidiwch â:

- Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyny gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.
- Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw LlywodraethCymru.

**P600 - Gât Safonol (Pren Meddal)**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Safonol – pren meddal'. Os ydych am newid y safon,rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Gosodwch gatiau caeau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Osydy'r bwlch yn fwy na 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.
- Defnyddiwch gatiau caeau sydd wedi'u gwneud o bren meddal wedi'i drin danbwysedd, yn unol â'r dimensiynau yn y diagram isod.
- Defnyddiwch gatiau caeau o bren sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad yn y diagramisod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y'i diwygiwyd.
- Gosodwch y gât bren i hongian ar bostyn o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob postyn hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst caugroestoriad o 175mm x 175mm.
- Gosodwch bob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen.Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

**Peidiwch â:**

- Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyny gât (y cilbost) a'r postyn tynnu agosaf.
- Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw LlywodraethCymru.

**P516 - Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraeddichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren'.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Adeiladwch y Cilbyst a'r Gât Ceffyl o bren meddal sydd wedi'i drin o danbwysedd neu o bren caled.
- Rhaid i'r gatiau fod o leiaf 1.5m o led a 1.3m o uchder. Gofalwch fod digon ole ar un ochr y

gât i’r ceffyl sefyll tra bod y gât yn cael ei hagor.

- Gallwch brynu gât barod neu gallwch adeiladu gât â darnau o bren o’rmeintiau canlynol:
- Defnyddiwch gilbyst â chroestoriad o 10cm x 7.5cm o leiaf.
- Defnyddiwch reiliau (asennau a chleddyfau) â chroestoriad o 7.5cm x2.5cm, ond dylai’r asen uchaf fod yn 10cm x 7.5cm.
- Dylech hongian y gât fel y mae’r diagram yn ei ddangos er mwyn ichi allu eihagor o ddau gyfeiriad.
- Rhowch gliciedau sy’n gadael ichi agor y gât heb orfod dod oddi ar eich ceffyl.
- Gofalwch fod dimensiynau’r cilbyst fel a ganlyn; Y cilbost hongian – diamedro 15cm fan leiaf - Y cilbost cau – diamedr o 12cm fan leiaf - Dylech osod bobpostyn yn ddigon dwfn yn y pridd i’w wneud yn sefydlog.
- Gofalwch fod y gât yn cydymffurfio â BS5709.


**Peidiwch â:**

- Adeiladu cilbyst a gatiau ceffyl ar hawliau tramwy cyhoeddus heb ganiatâdLlywodraeth Cymru.
- Defnyddio concrit i sicrhau’r cynheiliaid pren yn y ddaear, gan y gall bydru’rpren ar lefel y ddaear.

Gofynion a chyngor ychwanegol at y manylebau uchod:

- Defnyddiwch glicied ‘estyn’ neu ‘ffrwyn’ er mwyn ichi allu agor y gât heb orfoddod oddi ar eich ceffyl.
- Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi bachyn uchaf y gât ben i waredfel ei bod yn anodd codi’r gât o’i lle.
- Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i’w sefydlogi.

## Enghraifft o gât ceffyl o bren



**P517 - Cilbyst a Gât Mochyn o Bren**

Mae'r Nodyn Technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraeddichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Mochyn o Bren'. Mae gatiau mochyn yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i groesi ffiniau caeau.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Adeiladwch y gât a'r cilbyst o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwyseddneu o bren caled.
- Ni fydd stoc yn gallu mynd trwyddi sut bynnag mae hi, ond bydd pobl yngallu cerdded trwyddi'n rhwydd.
- Gofalwch ei bod yn rhwystr effeithiol rhag beicwyr a cheffylau.
- Gallwch brynu gât barod neu adeiladu gât. Rhaid i'r gât;
- Fod o leiaf 1.2m o led a 1.2m o uchder.
- Rhaid i silindr 1m ar ei phen allu pasio trwy'r gât. Gofalwch nad yw 'gwddf'
- y gât mochyn (y lle culaf pan fyddwch yn cerdded trwyddi) yn llai na 1m o led.
- Gofalwch fod dimensiynau'r cilbyst a'r rheiliau (asennau a chleddyfau) fel aganlyn;
- Defnyddiwch gilbyst â chroestoriad o 10cm x 7.5cm fan leiaf.
- Defnyddiwch reiliau â chroestoriad o 7.5cm x 2.5cm, ond dylai'r asen uchaffod yn 10cm x 7.5cm.
- Dylai'r cilbost hongian fod â diamedr o 15cm fan leiaf.
- Dylai'r cilbost cau fod â diamedr o 12cm fan leiaf.
- Dylech osod bob postyn yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog.
- Gosodwch fachau'r gât fel eu bod yn ymestyn 3cm o'r cilbost. Bydd hynny'n gwneud i'r gât gau yn erbyn un o'r cilbyst ochrol pan fyddwch yn ei gollwng.
- Gofalwch ei bod yn cydymffurfio â BS5709:2006, fel y'i diwygiwyd. Ar hawl tramwy cyhoeddus, rhaid dewis y celficyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa.


**Peidiwch â:**

- Defnyddio concrit i sicrhau'r pyst yn y ddaear am y gall bydru'r pren ar lefel yddaear.
- Rhoi weiren bigog ar y gât mochyn.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Iddi fod yn fwy fyth o rwystr i stoc, gosodwch glicied sy'n cau ei hun.
- Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi'r bachyn uchaf ben i wared fel ei bodyn anodd codi'r gât o'i lle.
- Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i'w sefydlog.

Enghraifft o gât mochyn pren



## 5. GWAITH CYFALAF DWR CYSYLLTIEDIG

### P563 - Pibelli Cyflenwi Dŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Pibell Cyflenwi Dŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith. Gellir defnyddio pibelli dŵr i gario dŵr i gafnau yfed os yw'r da byw'n cael eu rhwystro rhag defnyddio cylchred dŵr parhaol neu llyn gan weithgareddau Grant Creu Coetir.

**Mae'r grant hwn ar gael dim ond pan fo'n angenrheidiol i eithrio stoc o ardaloedd i'w plannu ger cylchred dŵr parhaol neu llyn.**

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Rhaid i'r pibelli fod o bolyethylen glas dwysedd canolig gyda diamedr allanol o 2.5 cm fan leiaf.
- Defnyddiwch gymalau dwrglos o bres neu blastig.
- Rhaid claddu pibelli at ddyfnder digonol i sicrhau nad yw gweithgareddau ar y wyneb yn eu difrodi.
- Rhaid adfer tir wedi'i dyrchu fel ei fod fel y tir o'i gwmpas ar ôl gorffen gosod y pibelli.
- Rhaid gwarchod unrhyw bibelli sydd uwchlaw'r ddaear rhag anifeiliaid a rhew.
- Pan fydd pibell yn croesi ffos agored neu drac, rhaid gosod giârd o diwb dur neu bibell lawes dros y bibell, a'i gosod at ddigon o ddyfnder islaw'r ffos er mwyn ichi allu glanhau'r ffos. Wrth groesi trac fferm, gofalwch fod y bibell wedi'i diogelu'n ddigonol o dan y trac.
- Rhaid rheoli'r cyflenwad dŵr â falfiau ynysu/ tapiau cau ar bwynt y cyflenwad ac wrth bob cafn. Rhaid gwarchod y falfiau ynysu/tapiau cau rhag rhew a difrod gan stoc, a rhaid iddynt fod yn hawdd cyrraedd atynt.
- Lle bo angen claddu falfiau/tapiau cau, rhaid iddynt fod o leiaf 60cm o dan y pridd a dylai fod modd cyrraedd atynt drwy siambr archwilio dan glawr.
- Rhaid i bibell ddŵr ddarparu digon o ddŵr yfed oer i ail-lenwi'r holl gafnau dŵr ar ei hyd yn barhaus drwy'r flwyddyn mewn 10 munud.
- Rhaid i bob gwaith cyflenwi dŵr gydymffurfio â Chodau Ymarfer Safonau Prydeinig cyfredol BS6572, fel y'i diwygiwyd.

**Peidiwch â:**

- Difrodi gwasanaethau eraill megis cyflenwad dŵr, gwastraff, nwy, trydan a ffôn.

**Gofynion a chyngor yn ogystal â'r manylebau uchod:**

- Ystyriwch osod draeniau caeau a'r falfiau yn yr un lle er mwyn ichi allu cael atyn nhw'n rhwydd.

- Ystyriwch amrywiaeth o ffactorau wrth bennu diamedr y pibelli, gan gynnwys: pwysedd dŵr, capasiti dŵr, llif cyfnewidiol, hyd y bibell a newid o ran uchder, faint o ddŵr sydd ei angen, y nifer o gafnau, y nifer a'r math o stoc sy'n defnyddio pob cafn.
- Lle bydd cymalau wedi'u claddu dan ddaear, cynghorir eich bod yn marcio eu lleoliad, ar byst ffensiau er enghraifft, er mwyn cynorthwyo â chynnal a chadw yn y dyfodol.
- Rhaid claddu pibelli o leiaf 60cm o ddyfnder, ac yn ddyfnach os rhagwelir aredig dwfn neu aredig yr isbridd yn y dyfodol.
- Gellir gosod pibelli drwy dorri ffosydd, gydag aradr wadd neu aradr isbridd, gan ddibynnu ar y math o bridd a'r peiriannau sydd ar gael.
- Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan ffos yw ei gosod 60cm islaw'r ffos er mwyn ichi allu glanhau'r ffos.
- Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan drac fferm yw gosod y bibell ar wely 7.5cm o dywod a'i gorchuddio â 10cm arall o dywod cyn ôl-lenwi ar ei ben.

**P573 - Gât Ddŵr**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Ddŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrfau ar y gwaith. Mae angen gatiau dŵr i reoli stoc pan fydd ffens yn croesi afon a nant. Maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol os ydy lefel y dŵr yn amrywio'n fawr yn ystod y flwyddyn.

**Mae'r grant hwn ar gael dim ond pan fo'n angenrheidiol i eithrio stoc o ardaloedd i'w plannu ger cylchred dŵr parhaol neu llyn.**


**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Adeiladwch gât sy'n cynnwys cyfres o byst pren crog wedi'u cysylltu wrth ddarn o gebl neu reilen bren gron sy'n cael ei hongian yn llorweddol rhwng pyst cynnal. Rhaid adeiladu pob gât fel ei bod yn addas ar gyfer proffil y nant unigol.
- Rhwng y gât ddŵr a'r ffens, cysylltwch ddarnau byr o reilen bren neu netin wrth byst cynnal sydd wedi'u gosod mewn mannau addas.
- Bydd y pyst crog wedi'u gwneud o bren wedi'i lifio a heb ei drin ac â chroesdoriad o 5cm sgwâr fan leiaf. Rhaid eu drilio a dirwyn y cebl neu weiren y ffens drwyddynt a gosod darnau gwahanu 15cm o hyd o bibell blastig rhyngddynt. Bydd bwlch felly o 15cm rhwng pob postyn crog.
- Os ydy gyli'r nant dros 1.5m o ddyfnder, bydd angen pyst crog 7cm sgwâr o faint o leiaf. Rhowch y post crog i hongiant ar bolyn crwn o bren gan ddefnyddio dolenni o weiar i'w cysylltu.


**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Wrth ddewis croesfan addas i osod y gât, bydd angen i wely'r nant fod yn galed a dylai fod yn rhwydd mynd o un lan i'r llall. Bydd y gwaith adeiladu a'r gwaith cynnal a chadw yn haws o ddewis croesfan addas.
- Trwy hongian y gât ar wahân i'r brif ffens, mater rhwydd fydd codi'r gât pan fydd llifogydd mawr heb ddifrodi'r brif ffens. Ni fydd llawer o ddifrod i'r gât a gallwch ei thrwsio a'i rhoi yn ei hôl.
- Mae'n well creu gatiau mawr mewn darnau. O wneud hynny, mae'n llai tebygol y caiff y gât gyfan ei hysgubo i ffwrdd gan lif mawr.
- Byddai'n ddoeth ichi garthu bôn y gât o dro i dro. Mae cymysgedd o ddail a changhennau'n gallu crynhoi wrth fôn y gât gan roi pwysau ar y weiars a'r polion a difrodi'r gât.
- Dylech hongian gatiau ar ongl, gyda gwaelod y gât yn gorwedd ar wely'r nant ar waered y nant. Bydd hyn yn rhwystro da byw rhag pasio o dan y gât pan fydd llif y nant yn isel.

Enghreifftiau o Gatiau Dŵr




Enghreifftiau o Gatiau Dŵr



## P574 - Cafnau Dŵr

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer ‘Cafnau Dŵr’. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith. Defnyddir cafnau dŵr i roi dŵr yfed i dda byw’n cael eu rhwystro rhag defnyddio cylchred dŵr parhaol neu llyn gan weithgareddau Grant Creu Coetir.

**Mae’r grant hwn ar gael dim ond pan fo’n angenrheidiol i eithrio stoc o ardaloedd i’w plannu ger cylchred dŵr parhaol neu llyn.**

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi’u gwneud o ddur wedi’i alfaneiddio, plastig neu goncrit.
- Gosodwch gafn sydd o leiaf 1.8m o hyd. Bydd naill ai wedi’i gysylltu â’r cyflenwad dŵr neu bydd dŵr yn llifo’n rheolaidd iddo o ‘fowser’, fel bod y stoc yn y cae yn cael digon o ddŵr i ateb eu gofynion. Bydd y taliad safonol yn cynnwys costau ffitiadau fel tap pelen ac ati.
- Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi’u dylunio at y gwaith.
- Rhaid gofalu nad yw’r cafnau’n sarnu na’n gollwng dŵr. Mae’r taliad safonol yn cynnwys tâl am osod sylfaen.
- Gofalwch fod y cafn dŵr yn bodloni Cod Ymarfer y Safonau Prydeinig.

**Peidiwch â:**

- Ei osod wrth fwlch cae neu ger llwybr.
- Ar dir gwlyb gan y bydd perygl i’r stoc ei stablad (stwnsio’r pridd).

**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Peidiwch â gosod cafnau dŵr unrhyw le sy’n bwysig oherwydd ei blanhigion neu ei anifeiliaid gwyllt.
- Ceisiwch ofalu nad yw’r cafn yn cael effaith andwyol ar y dirwedd trwy ei gosod wrth ymyl cae a dewiswch ddeunydd na fydd yn eich taro’n chwith wrth ichi edrych arno fel rhan o’r dirwedd o’i gwmpas.
- Gosodwch gafn sy’n ddigon mawr i gyflenwi digon o ddŵr i’r anifeiliaid fydd yn yfed ohono.

Enghraifft o gafn dŵr

